**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 3268 (Cy.298)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan erthygl 21(1) a (2) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003 (O.S. 2003/284) ("Gorchymyn 2003") mae hawl swyddog canlyniadau mewn etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i adennill taliadau o ran gwasanaethau neu dreuliau'r person hwnnw ar gyfer y cyfryw etholiad neu mewn cysylltiad ag ef yn dibynnu ar y canlynol, sef —

(a) mai gwasanaethau neu dreuliau ydynt o fath a nodir mewn Gorchymyn o dan y darpariaethau hynny;

(b) bod y gwasanaethau yn cael eu darparu'n briodol a bod y treuliau wedi'u tynnu'n briodol; ac

(c) bod y taliadau mewn perthynas â hwy yn rhesymol.

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan erthygl 21(1) a (2) o Orchymyn 2003 ac mae'n dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002 (O.S. 2002/3053) (Cy.288) a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2003 (O.S.2003/3117) (Cy.295). Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r cyfryw wasanaethau a threuliau y cyfeirir atynt uchod.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 3268 (W.298)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Under article 21(1) and (2) of the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2003 (S.I. 2003/284) ("the 2003 Order") the entitlement of a returning officer at an election to the National Assembly for Wales to recover charges in respect of that person's services or expenses for, or in connection, with such an election depends upon —

(a) the services or expenses being of a kind specified in an Order under those provisions;

(b) the services being properly rendered and the expenses being properly incurred; and

(c) the charges in respect of them being reasonable.

This Order is made under article 21 (1) and (2) of the 2003 Order and revokes the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2002 (S.I. 2002/3053) (W.288) and the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) (Amendment) Order 2003 (S.I.2003/3117) (W.295). This Order specifies such services and expenses as are referred to above.

Mae Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn disgrifio'r mathau o wasanaethau a ddarperir gan swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol ar gyfer etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu mewn cysylltiad ag ef, ac y mae hawl gan y personau hynny i adennill taliadau mewn cysylltiad â hwy, ac mae'n nodi'r uchafsymiau y gellir eu hadennill mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny.

Mae Rhannau II a III o'r Atodlen yn disgrifio'r mathau o dreuliau a dynnir gan swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol ar gyfer etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu mewn cysylltiad ag ef, ac y mae hawl gan y personau hyn i adennill taliadau mewn perthynas â hwy, ac mae'n nodi (yn achos Rhan II) yr uchafsymiau y gellir eu hadennill mewn perthynas â'r treuliau hynny.

Part I of the Schedule to this Order describes the kinds of services rendered by a constituency returning officer or regional returning officer for, or in connection with, an election to the National Assembly for Wales in respect of which those persons are entitled to recover charges and sets out the maximum recoverable amounts in respect of those services.

Parts II and III of the Schedule describe the kinds of expenses incurred by a constituency returning officer or regional returning officer for, or in connection, with an election to the National Assembly for Wales in respect of which these persons are entitled to recover charges and sets out (in the case of Part II) the maximum recoverable amounts in respect of those expenses.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 3268 (Cy.298)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *6 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym* | *8 Rhagfyr 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan erthygl 21(1) a (2) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn —

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006 a daw i rym ar 8 Rhagfyr 2006.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "clerc pleidleisio" ("*poll clerk*") yw person a benodir gan y swyddog canlyniadau etholaeth i helpu'r swyddog llywyddu i gynnal etholiad mewn gorsaf bleidleisio;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae "etholaeth Cynulliad" ("*Assembly constituency*") a "rhanbarth etholiadol Cynulliad" ("*Assembly electoral region*") i'w dehongli yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**) ac Atodlen 1 iddi;

(**1**) Diwygiwyd O.S. 2003/284 gan O.S. 2006/884; fodd bynnag nid yw'r diwygiadau'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) 1998 p. 38.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 3268 (W.298)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 December 2006* |
| *Coming into force* | *8 December 2006* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by article 21 (1) and (2) of the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2003(**1**), and having carried out consultation with the Electoral Commission hereby makes the following Order —

**Title and commencement**

**1**. The title of this Order is the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2006 and it comes into force on 8 December 2006.

**Interpretation**

**2**. In this Order —

"the Assembly" ("*y Cynulliad*") means the National Assembly for Wales;

"Assembly constituency" ("*etholaeth Cynulliad*") and "Assembly electoral region" ("*rhanbarth etholiadol Cynulliad*") are to be construed in accordance with section 2(2) of, and Schedule 1 to, the Government of Wales Act 1998(**2**);

"Assembly election" ("*etholiad Cynulliad*") means a constituency election or a regional election;

"constituency election" ("*etholiad etholaeth*") means an election to return an Assembly member for an Assembly constituency;

(**1**) S.I. 2003/284 was amended by S.I. 2006/884 however the amendments are not relevant to this Order.

(**2**) 1998 c.38.

ystyr "etholiad cyffredin" ("*ordinary election*") yw cynnal etholiad etholaeth ac etholiad rhanbarthol ar gyfer dychwelyd pob aelod Cynulliad;

ystyr "etholiad Cynulliad" ("*Assembly election*") yw etholiad etholaeth neu etholiad rhanbarthol;

ystyr "etholiad etholaeth" ("*constituency election*") yw etholiad i ddychwelyd aelod Cynulliad ar gyfer etholaeth Cynulliad;

ystyr "etholiad rhanbarthol" ("*regional election*") yw etholiad i ddychwelyd aelodau Cynulliad ar gyfer rhanbarth etholiadol Cynulliad;

ystyr "Gorchymyn 2003" ("*the 2003 Order*") yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003;

ystyr "swyddog canlyniadau etholaeth" ("*constituency returning officer*") yw'r person sy'n swyddog canlyniadau ar gyfer etholiad etholaeth;

ystyr "swyddog canlyniadau rhanbarthol" ("*regional returning officer*") yw'r person sy'n swyddog canlyniadau ar gyfer etholiad rhanbarthol;

ystyr "swyddog llywyddu" ("*presiding officer*") yw'r person a benodir gan y swyddog canlyniadau etholaeth i oruchwylio gorsaf bleidleisio; ac

mae unrhyw gyfeiriad at gofrestr etholwyr yn gyfeiriad at y gofrestr (neu'r cofrestrau) etholwyr a ddefnyddir mewn etholiad Cynulliad ac at y gofrestr (neu'r cofrestrau) fel y cawsant eu cyhoeddi am y tro cyntaf.

**Manyleb at ddibenion erthygl 21 o Orchymyn 2003**

**3**.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), at ddibenion erthygl 21(1)(a) o Orchymyn 2003, nodir drwy hyn y gwasanaethau neu'r treuliau canlynol ar gyfer etholiad Cynulliad neu mewn perthynas ag ef—

(a) gwasanaethau o fath a ddisgrifir ym mharagraffau 1(1) a 2(1) o'r Atodlen;

(b) treuliau o fath a ddisgrifir ym mharagraffau 3(1), 4(1), 5(1), 6(1) a 7(1) o'r Atodlen; ac

(c) treuliau o fath a ddisgrifir ym mharagraffau 9 i 20 o'r Atodlen.

(2) Pan gynhelir, mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad, etholiad rhanbarthol nas ymleddir (p'un ai mewn etholiad cyffredin ai peidio) ni chaiff y fanyleb o dan baragraff (1) effaith mewn perthynas ag—

(a) gwasanaethau o fath a ddisgrifir ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen; a

(b) treuliau o fath a ddisgrifir ym mharagraffau 3(1), 4(1), 5(1) a 7(1) o'r Atodlen;

"constituency returning officer" (*swyddog canlyniadau etholaeth*") means the person who is the returning officer for a constituency election;

"ordinary election" ("*etholiad cyffredin*") means the holding of constituency elections and regional elections for the return of all Assembly members;

"poll clerk" ("*clerc pleidleisio*") means a person appointed by the constituency returning officer to assist the presiding officer in the conduct of an election at a polling station;

"presiding officer" ("*swyddog llywyddu*") means the person appointed by the constituency returning officer to supervise a polling station;

"regional election" ("*etholiad rhanbarthol*") means an election to return Assembly members for an Assembly electoral region;

"regional returning officer" ("*swyddog canlyniadau rhanbarthol*") means the person who is the returning officer for a regional election;

"the 2003 Order" ("*Gorchymyn 2003*") means the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2003; and

any reference to a register of electors is a reference to the register (or registers) of electors used at an Assembly election and to the register (or registers) as first published.

**Specification for the purposes of article 21 of the 2003 Order**

**3**.—(1) Subject to paragraph (2), for the purposes of article 21 (1) (a) of the 2003 Order, the following services or expenses are hereby specified for, or in connection with, an Assembly election—

(a) services of a kind described in paragraphs 1(1) and 2(1) of the Schedule;

(b) expenses of a kind described in paragraphs 3(1), 4(1), 5(1), 6(1) and 7(1) of the Schedule; and

(c) expenses of a kind described in paragraphs 9 to 20 of the Schedule.

(2) Where in relation to an Assembly constituency there is an uncontested regional election (whether or not at an ordinary election) the specification under paragraph (1) does not have effect in relation to—

(a) services of a kind described in paragraph 1(1) of the Schedule; and

(b) expenses of a kind described in paragraphs 3(1), 4(1), 5(1) and 7(1) of the Schedule;

mewn perthynas â'r etholaeth Cynulliad honno yn yr etholiad rhanbarthol.

(3) Mae paragraffau (4) i (6) o'r erthygl hon yn pennu'r uchafsymiau y gellir eu hadennill at ddibenion erthygl 21(2) o Orchymyn 2003 o ran y gwasanaethau a'r treuliau a bennir yn Rhannau I a II o'r Atodlen.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), mewn etholiad Cynulliad a ymleddir, pennir drwy hyn yr uchafsymiau y gellir eu hadennill ac a nodir yn yr Atodlen mewn perthynas â'r gwasanaethau a'r treuliau a bennir yn Rhannau I a II o'r Atodlen fel yr uchafsymiau y gellir eu hadennill mewn perthynas â'r gwasanaethau a'r treuliau hynny.

(5) Ond pan geir mewn etholiad cyffredin mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad bleidleisio ar gyfer etholiad etholaeth ac ar gyfer etholiad rhanbarthol bydd unrhyw uchafswm y gellir ei adennill ac a bennir yn y Gorchymyn hwn yn cael effaith mewn perthynas â'r ddau etholiad mewn perthynas â'r etholaeth Cynulliad honno pan fyddai fel arall (heblaw am y paragraff hwn) yn cael effaith mewn perthynas â phob etholiad o'r fath.

(6) Pennir drwy hyn yr uchafsymiau y gellir eu hadennill mewn etholiad Cynulliad nas ymleddir, sef—

(a) £475.00 ar gyfer swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad etholaeth o ran y gwasanaethau a bennir yn Rhan I o'r Atodlen;

(b) £95.00 ar gyfer swyddog canlyniadau rhanbarthol mewn etholiad rhanbarthol o ran y gwasanaethau a bennir yn Rhan I o'r Atodlen;

(c) £1,173.00 ar gyfer swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad etholaeth o ran y treuliau a bennir yn Rhan II o'r Atodlen; ac

(ch) £235.00 ar gyfer swyddog canlyniadau rhanbarthol mewn etholiad rhanbarthol o ran y treuliau a bennir yn Rhan II o'r Atodlen.

in relation to that Assembly constituency at the regional election.

(3) Paragraphs (4) to (6) of this article specify maximum recoverable amounts for the purposes of article 21 (2) of the 2003 Order in respect of the specified services and expenses in Parts I and II of the Schedule.

(4) Subject to paragraph (5), at a contested Assembly election the maximum recoverable amounts set out in the Schedule in relation to the specified services and expenses in Parts I and II of the Schedule are hereby specified as the maximum recoverable amounts in relation to those services and expenses.

(5) But where at an ordinary election in relation to an Assembly constituency there are polls at a constituency election and at a regional election any maximum recoverable amount specified by this Order has effect in relation to both elections in relation to that Assembly constituency where (apart from this paragraph) it would otherwise have effect in relation to each such election.

(6) At an uncontested Assembly election the maximum recoverable amounts are hereby specified as—

(a) £475.00 for a constituency returning officer at a constituency election in respect of the specified services in Part I of the Schedule;

(b) £95.00 for a regional returning officer at a regional election in respect of the specified services in Part I of the Schedule;

(c) £1,173.00 for a constituency returning officer at a constituency election in respect of the specified expenses in Part II of the Schedule; and

(d) £235.00 for a regional returning officer at a regional election in respect of the specified expenses in Part II of the Schedule.

**Dirymu**

**4**. Dirymir drwy hyn Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002(**1**) a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2003(**2**).

**Revocation**

**4**. The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2002(**1**) and the National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) (Amendment) Order 2003(**2**) are hereby revoked.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998

6 Rhagfyr 2006

6 December 2006

*Dafydd Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) O.S. 2002/3053 (Cy.288).

(**2**) O.S. 2003/3117 (Cy. 295).

(**1**) S.I. 2002/3053 (W.288).

(**2**) S.I. 2003/3117 (W. 295).

## YR ATODLEN

## GWASANAETHAU A THREULIAU Y CAIFF SWYDDOG CANLYNIADAU ETHOLAETH NEU SWYDDOG CANLYNIADAU RHANBARTHOL MEWN ETHOLIAD CYNULLIAD ADENNILL TALIADAU MEWN PERTHYNAS Â HWY

### RHAN 1

Gwasanaethau Swyddog Canlyniadau Etholaeth neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol y Pennir Uchafsymiau y Gellir eu Hadennill Mewn Perthynas â Hwy

Erthygl 3

**Gwasanaethau swyddog canlyniadau etholaeth gan gynnwys dyroddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post**

**1**.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwasanaethau swyddog canlyniadau etholaeth pan fydd yn cynnal etholiad Cynulliad ac yn cyflawni dyletswyddau'r person hwnnw mewn cysylltiad â hynny (gan gynnwys dyroddi a derbyn papurau pleidleisio o ran personau sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post).

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) i (5), yr uchafswm y gellir ei adennill mewn etholiad Cynulliad ar gyfer y gwasanaethau a bennir yn is-baragraff (1) yw £2,600.00.

(3) Mewn etholiad cyffredin mae'r swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) yn cael ei gynyddu o £1,362.00 pan geir pleidleisio mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad mewn etholiad etholaeth ac mewn etholiad rhanbarthol.

(4) Mae'r swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) yn cael ei gynyddu o £349.00 pan gaiff y pleidleisio mewn etholiad Cynulliad ei gyfuno â'r pleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol o dan erthygl 15(1) neu (2) o Orchymyn 2003.

(5) Pan fo person mewn etholiad cyffredin yn swyddog canlyniadau mewn mwy na thri etholiad etholaeth caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei ostwng o £291.00 ar gyfer pob etholiad o'r fath sy'n fwy na thri.

**Gwasanaethau swyddog canlyniadau rhanbarthol**

**2**.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwasanaethau swyddog canlyniadau rhanbarthol pan fydd yn cynnal etholiad rhanbarthol ac yn cyflawni dyletswyddau'r person hwnnw mewn cysylltiad â hynny.

## SCHEDULE

## SERVICES AND EXPENSES IN RESPECT OF WHICH A CONSTITUENCY RETURNING OFFICER OR A REGIONAL RETURNING OFFICER AT AN ASSEMBLY ELECTION MAY RECOVER CHARGES

### PART I

Services of a Constituency Returning Officer or a Regional Returning Officer for which Maximum Recoverable Amounts are Specified

Article 3

**Services of constituency returning officer including the issue and receipt of postal ballot papers**

**1**.—(1) This paragraph makes provision for a constituency returning officer's services in conducting an Assembly election and discharging that person's duties in connection therewith (including the issue and receipt of the ballot papers for persons entitled to vote by post).

(2) Subject to sub-paragraphs (3) to (5), the maximum recoverable amount at an Assembly election for the specified services in sub-paragraph (1) is £2,600.00.

(3) At an ordinary election the amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £1,362.00 where in relation to an Assembly constituency there are polls at a constituency election and at a regional election.

(4) The amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £349.00 where the poll at an Assembly election is combined with the poll at a local government election under article 15(1) or (2) of the 2003 Order.

(5) Where at an ordinary election a person is returning officer at more than three constituency elections the amount mentioned in sub-paragraph (2) is reduced by £291.00 for each such election exceeding three.

**Services of regional returning officer**

**2**.—(1) This paragraph makes provision for a regional returning officer's services in conducting a regional election and discharging that persons duties in connection therewith.

(2) Yr uchafswm y gellir ei adennill mewn etholiad rhanbarthol am y gwasanaethau a bennir yn is-baragraff (1) yw £1,362.00.

(2) The maximum recoverable amount at a regional election for the specified services in sub-paragraph (1) is £1,362.00.

## RHAN II

Treuliau Swyddog Canlyniadau Etholaeth neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol y Pennir Uchafsymiau y Gellir eu Hadennill Mewn Perthynas â Hwy

## PART II

Expenses of a Constituency Returning Officer or a Regional Returning Officer for which Maximum Recoverable Amounts are Specified

**Talu swyddogion llywyddu mewn gorsafoedd pleidleisio**

**3**.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaethau ar gyfer treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad o ran talu swyddogion llywyddu mewn gorsafoedd pleidleisio.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) i (6), yr uchafswm y gellir ei adennill mewn etholiad Cynulliad am y treuliau a bennir yn is-baragraff (1) (gan gynnwys treuliau a dynnir o ran person sy'n ysgwyddo dyletswyddau swyddog llywyddu ar y diwrnod pleidleisio o ganlyniad i analluogrwydd y swyddog llywyddu a benodwyd eisoes) o ran y swyddog llywyddu ym mhob gorsaf bleidleisio yw £158.00.

(3) Mewn etholiad cyffredin caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu o £41.00 pan geir pleidleisio mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad mewn etholiad etholaeth ac mewn etholiad rhanbarthol.

(4) Pan geir mewn lle pleidleisio fwy nag un orsaf bleidleisio caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu o £9.00 o ran un swyddog llywyddu yn unig yn y gorsafoedd pleidleisio yn y lle pleidleisio hwnnw.

(5) O ran swyddog llywyddu y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu o £9.00 pan fo is-baragraff (3) hefyd yn gymwys.

(6) Caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu o £41.00 pan gaiff pleidleisio mewn etholiad Cynulliad ei gyfuno â'r pleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol o dan erthygl 15(1) neu (2) o Orchymyn 2003.

**Payment of presiding officers at polling stations**

**3**.—(1) This paragraph makes provisions for a constituency returning officer's expenses at an Assembly election in respect of the payment of presiding officers at polling stations.

(2) Subject to sub-paragraphs (3) to (6), the maximum recoverable amount at an Assembly election for the specified expenses in sub-paragraph (1) (including expenses incurred in respect of a person who takes over the duties of a presiding officer on polling day due to the incapacity of the previously appointed presiding officer) in respect of the presiding officer at each polling station is £158.00.

(3) At an ordinary election the amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £41.00 where in relation to an Assembly constituency there are polls at a constituency election and at a regional election.

(4) Where at a polling place there is more than one polling station the amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £9.00 in respect of one only of the presiding officers at the polling stations at such polling place.

(5) In respect of a presiding officer to whom sub-paragraph (4) applies the amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £9.00 where sub-paragraph (3) also applies.

(6) The amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £41.00 where the poll at an Assembly election is combined with the poll at a local government election under article 15(1) or (2) of the 2003 Order.

**Talu clercod pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio**

**4**.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad o ran talu clercod pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio.

**Payment of poll clerks at polling stations**

**4**.—(1) This paragraph makes provision for a constituency returning officer's expenses at an Assembly election in respect of the payment of poll clerks at polling stations.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4), yr uchafswm y gellir ei adennill mewn etholiad Cynulliad ar gyfer y treuliau a bennir yn is-baragraff (1) yw £95 fesul clerc pledeisio.

(3) Mewn etholiad cyffredin caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu o £24.00 pan geir pleidleisio mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad mewn etholiad etholaeth ac mewn etholiad rhanbarthol.

(4) Caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu o £24.00 pan fo'r pleidleisio mewn etholiad Cynulliad yn cael ei gyfuno â phleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol o dan erthygl 15(1) neu (2) o Orchymyn 2003.

**Talu personau mewn cysylltiad â dyroddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post etc**

**5**.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer treuliau swyddog canlyniadau mewn etholiad Cynulliad o ran talu personau sydd wedi'u cyflogi mewn cysylltiad â dyroddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post ac â'r cyfrif ac ag unrhyw gymorth clerigol neu gymorth arall at ddibenion yr etholiad.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) i (7), yr uchafswm y gellir ei adennill mewn etholiad Cynulliad ar gyfer y treuliau a bennir yn is-baragraff (1) yw £11,200.00.

(3) Mewn etholiad cyffredin caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu o £10,080.00 pan geir pleidleisio mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad mewn etholiad etholaeth ac mewn etholiad rhanbarthol.

(4) Caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu am bob 100 o bleidleiswyr, neu am ffracsiwn o hynny, sydd â hawl i bleidleisio drwy'r post o £62.40 mewn perthynas ag etholiad etholaeth neu etholiad rhanbarthol ac eithrio etholiad y mae is-baragraff (5) yn gymwys iddo.

(5) Mewn etholiad cyffredin caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu am bob 75 o bleidleiswyr, neu am ffracsiwn o hynny, sydd â'r hawl i bleidleisio drwy'r post o £62.40 pan geir pleidleisio, mewn perthynas ag etholaeth Cynulliad, mewn etholiad etholaeth ac mewn etholiad rhanbarthol.

(6) Caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu o £524.00 ar gyfer pob tro y caiff pleidleisiau eu hailgyfrif o dan baragraff 51 neu 52 o Atodlen 5 i Orchymyn 2003.

(7) Caiff y swm a grybwyllir yn is-baragraff (2) ei gynyddu o £1,512.00 pan gaiff pleidleisio mewn etholiad etholaeth ei gyfuno â'r pleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol o dan erthygl 15(1) neu (2) o Orchymyn 2003.

(2) Subject to sub-paragraphs (3) and (4), the maximum recoverable amount at an Assembly election for the specified expenses in sub-paragraph (1) in respect of each poll clerk is £95.00.

(3) At an ordinary election the amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £24.00 where in relation to an Assembly constituency there are polls at a constituency election and at a regional election.

(4) The amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £24.00 where the poll at an Assembly election is combined with a poll at a local government election under article 15(1) or (2) of the 2003 Order.

**Payment to persons in connection with the issue and receipt of postal ballot papers etc**

**5**.—(1) This paragraph makes provision for a constituency returning officer's expenses at an Assembly election in respect of the payment of persons employed in connection with the issue and receipt of postal ballot papers and the count and any other clerical or other assistance for the purposes of the election.

(2) Subject to sub-paragraphs (3) to (7), the maximum recoverable amount at an Assembly election for the specified expenses in sub-paragraph (1) is £11,200.00.

(3) At an ordinary election the amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £10,080.00 where in relation to an Assembly constituency there are polls at a constituency election and at a regional election.

(4) The amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased for every 100 voters, or fraction thereof, entitled to vote by post by £62.40 in relation to a constituency election or to a regional election other than an election to which sub-paragraph (5) applies.

(5) At an ordinary election the amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased for every 75 voters, or fraction thereof, entitled to vote by post by £62.40 where in relation to an Assembly constituency there are polls at a constituency election and at a regional election.

(6) The amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £524.00 for each re-count of votes under paragraph 51 or 52 of Schedule 5 to the 2003 Order.

(7) The amount mentioned in sub-paragraph (2) is increased by £1,512.00 where the poll at a constituency election is combined with the poll at a local government election under article 15(1) or (2) of the 2003 Order.

**Talu personau mewn cysylltiad â chymorth clerigol neu gymorth arall at ddibenion etholiad rhanbarthol**

**6**.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer treuliau swyddog canlyniadau rhanbarthol mewn etholiad rhanbarthol o ran talu personau sydd wedi'u cyflogi mewn cysylltiad â chymorth clerigol neu gymorth arall at ddibenion yr etholiad.

(2) Yr uchafswm y gellir ei adennill mewn etholiad rhanbarthol ar gyfer y treuliau a bennir yn is-baragraff (1) yw £1,212.00.

**Taliadau o ran hyfforddiant**

**7**.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu swyddog canlyniadau etholaeth o ran treuliau a dynnir wrth hyfforddi swyddogion llywyddu a chlercod pleidleisio i gyflawni dyletswyddau ar ddiwrnod pleidleisio mewn etholiad Cynulliad.

(2) Yr uchafswm y gellir ei adennill fesul swyddog llywyddu sy'n cael hyfforddiant yw £45.00 a gellir ei adennill heb ystyried ai'r swyddog llywyddu a gafodd yr hyfforddiant a gyflawnodd y dyletswyddau ar y diwrnod pleidleisio.

(3) Yn ychwanegol at y treuliau y gellir eu hadennill o dan is-baragraff (2) yr uchafswm y gellir ei adennill fesul etholaeth Cynulliad mewn cysylltiad â pharatoi deunyddiau hyfforddi yw £140.00.

(4) Yn ychwanegol at y treuliau y gellir eu hadennill o dan is-baragraffau (2) a (3) yr uchafswm y gellir ei adennill fesul cyflwyniad hyfforddi a roddir i swyddogion llywyddu a chlercod pleidleisio gan swyddog canlyniadau etholaeth neu rywun a enwebir gan swyddog canlyniadau etholaeth yw £112.00.

(5) Yn ychwanegol at dreuliau y gellir eu hadennill o dan baragraffau (2), (3) and (4) yr uchafswm y gellir ei adennill, fesul sesiwn hyfforddi, o gostau swyddogion canlyniadau etholaeth yw £196.00.

(6) Yr uchafswm y gellir ei adennill fesul clerc pleidleisio sy'n derbyn hyfforddiant yw £45.00 a gellir ei adennill heb ystyried ai'r clerc pleidleisio a gafodd yr hyfforddiant a gyflawnodd y dyletswyddau ar y diwrnod pleidleisio.

**Payment of persons in connection with clerical or other assistance for the purposes of a regional election**

**6**.—(1) This paragraph makes provision for a regional returning officer's expenses at a regional election in respect of the payment of persons employed in connection with clerical or other assistance for the purposes of the election.

(2) The maximum recoverable amount at a regional election for the specified expenses in sub-paragraph (1) is £1,212.00.

**Payments in respect of training**

**7**.—(1) This paragraph makes provision for payment to be made to a constituency returning officer in respect of expenses incurred in the training of presiding officers and poll clerks for duties on polling day in an Assembly election.

(2) The maximum recoverable amount per presiding officer who receives training is £45.00 and is recoverable irrespective of whether the presiding officer who was in receipt of the training discharges the duties on polling day.

(3) In addition to the expenses recoverable under sub-paragraph (2) the maximum recoverable amount per Assembly constituency in the preparation of training material is £140.00.

(4) In addition to expenses recoverable under sub-paragraphs (2) and (3) the maximum recoverable amount for each training presentation given by a constituency returning officer or someone nominated by a constituency returning officer to presiding officers and poll clerks is £112.00.

(5) In addition to expenses recoverable under paragraphs (2), (3) and (4) the maximum recoverable amount of the constituency returning officers' costs incurred per training presentation is £196.00.

(6) The maximum recoverable amount per poll clerk who receives training is £45.00 and is recoverable irrespective of whether the poll clerk who was in receipt of the training discharges the duties on polling day.

## RHAN III

Treuliau Swyddog Canlyniadau Etholaeth neu Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol pan na Phennir unrhyw Uchafsymiau y Gellir eu Hadennill Mewn Cysylltiad â Hwy

**Cyffredinol**

**8**. Mae treuliau swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol y cyfeirir atynt ym mharagraffau 9 i 20 yn dreuliau na phennir unrhyw uchafsymiau i'w hadennill mewn cysylltiad â hwy.

**Treuliau teithio a chynhaliaeth dros nos**

**9**. Mewn etholiad Cynulliad treuliau teithio a chynhaliaeth dros nos —

(a) swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol;

(b) unrhyw berson pan fo gwasanaethau'r person hwnnw wedi cael eu rhoi at ddefnydd swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol o dan erthygl 18 o Orchymyn 2003;

(c) unrhyw swyddog llywyddu neu glerc pleidleisio;ac

(ch)unrhyw gynorthwyydd clerigol neu gynorthwyydd arall a gyflogir gan y swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol.

**Argraffu etc y papurau pleidleisio**

**10**. Treuliau swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol mewn etholiad Cynulliad am argraffu neu gynhyrchu'r papurau pleidleisio fel arall.

**Argraffu etc y cardiau pleidleisio a'r dogfennau ategol a'u danfon**

**11**. Treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad o ganlyniad i argraffu neu gynhyrchu'r cardiau pleidleisio swyddogol fel arall ac unrhyw ddogfennau ategol sy'n berthnasol i'r broses etholiadol ac mewn cysylltiad â hi (nad oes angen eu hargraffu neu eu cynhyrchu fel arall drwy neu o dan Orchymyn 2003) a danfon y cyfryw gardiau ynghyd â'r cyfryw ddogfennau i'r pleidleiswyr.

**Treuliau argraffu etc dogfennau**

**12**. Treuliau swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol mewn etholiad Cynulliad am argraffu neu gynhyrchu fel arall a chyhoeddi, pan fo hynny'n briodol, ddogfennau a hysbysiadau eraill y mae'n ofynnol eu hargraffu , eu cynhyrchu neu eu cyhoeddi gan Orchymyn 2003 neu oddi tano.

## PART III

Expenses of a Constituency Returning Officer or a Regional Returning Officer for which No Maximum Recoverable Amounts are Specified

**General**

**8**. The expenses of a constituency returning officer or a regional returning officer referred to in paragraphs 9 to 20 are expenses for which no maximum recoverable amounts are specified.

**Travelling and overnight subsistence expenses**

**9**. Travelling and overnight subsistence expenses at an Assembly election—

(a) of a constituency returning officer or a regional returning officer;

(b) of any person where that person's services have been placed at the disposal of a constituency returning officer or a regional returning officer under article 18 of the 2003 Order;

(c) of any presiding officer or poll clerk; and

(d) of any clerical or other assistant employed by the constituency returning officer or regional returning officer.

**Printing etc of the ballot papers**

**10**. Expenses of a constituency returning officer or a regional returning officer at an Assembly election in printing or otherwise producing the ballot papers.

**Printing etc of the poll cards and supporting documentation and their delivery**

**11**. Expenses of a constituency returning officer at an Assembly election in printing or otherwise producing the official poll cards and any supporting documentation relevant to and in connection with the electoral process (not required to be printed or otherwise produced by or under the 2003 Order) and in delivering such cards together with any such documentation to the voters.

**Expenses of printing etc documents**

**12**. Expenses of a constituency returning officer or a regional returning officer at an Assembly election in printing or otherwise producing and, where appropriate, publishing other documents and notices required to be so printed, produced or published by or under the 2003 Order.

**Treuliau rhentu etc unrhyw adeilad neu ystafell**

**13**. Treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad o ganlyniad i rentu, gwresogi, goleuo a glanhau unrhyw adeilad neu ystafell.

**Treuliau addasu unrhyw adeilad neu ystafell dros dro etc**

**14**.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff 15, treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad am addasu dros dro unrhyw adeilad neu ystafell a'i adfer i gyflwr addas at ddefnydd arferol.

(2) Mae treuliau at ddibenion is-baragraff (1) yn cynnwys treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad am ddarparu bythau pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio (y gall pleidleiswyr fwrw eu pleidlais ynddynt wedi eu sgrinio o'r golwg) a'r cyfryw ddodrefn arall y byddo ei angen mewn gorsafoedd o'r fath.

**15**. Hanner cant y cant o dreuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad am brynu rampiau dros dro i'w gosod mewn gorsafoedd pleidleisio er mwyn darparu mynediad i'r gorsafoedd pleidleisio hynny i bleidleiswyr â nam symudedd (er hynny gall fod gan y swyddog canlyniadau etholaeth hawl i unrhyw nawdd neu daliad mewn perthynas â phrynu rampiau o'r fath, ac nid yw'r cyfryw nawdd neu daliad i fod yn fwy na hanner cant y cant o gost pob ramp).

**Treuliau darparu blychau pleidleisio etc**

**16**. Treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad am ddarparu blychau pleidleisio ac offerynnau i stampio'r marc swyddogol ar y papurau pleidleisio.

**Treuliau cludo blychau pleidleisio etc i ac o orsafoedd pleidleisio**

**17**. Treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad am gludo i ac o orsaf bleidleisio —

(a) y blychau pleidleisio a'r papurau pleidleisio, a

(b) y bythau pleidleisio, unrhyw ddodrefn arall sy'n angenrheidiol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio ac offerynnau i stampio'r marc swyddogol ar y papurau pleidleisio.

**Treuliau darparu papur ac offer ysgrifennu etc**

**18**. Treuliau swyddog canlyniadau etholaeth neu swyddog canlyniadau rhanbarthol mewn etholiad Cynulliad am ddarparu papur ac offer ysgrifennu a thaliadau postio, ffonio a bancio ac amrywiol eitemau eraill.

**Expenses in renting etc any building or room**

**13**. Expenses of a constituency returning officer at an Assembly election in renting, heating, lighting and cleaning any building or room.

**Expenses of temporarily adapting any building or room etc**

**14**.—(1) Subject to paragraph 15, expenses of a constituency returning officer at an Assembly election in temporarily adapting any building or room and in restoring it to a fit condition for its normal use.

(2) Expenses for the purposes of sub-paragraph (1) includes expenses of a constituency returning officer at an Assembly election in the provision of voting compartments for polling stations (in which voters can make their votes screened from observation) and such other furniture as may be necessary for such stations.

**15**. Fifty per cent of the expenses of a constituency returning officer at an Assembly election in purchasing temporary ramps for installation at polling stations so as to provide access to those polling stations by voters with a mobility impairment (notwithstanding that the constituency returning officer may be entitled to any subsidy or payment in respect of the purchase of such ramps, such subsidy or payment not to exceed fifty per cent of the cost of each ramp).

**Expenses of provision of ballot boxes etc**

**16**. Expenses of a constituency returning officer at an Assembly election in the provision of ballot boxes and instruments for stamping on ballot papers the official mark.

**Expenses of conveying of ballot boxes etc to and from polling station**

**17**. Expenses of a constituency returning officer at an Assembly election in the conveyance to and from the polling station—

(a) of the ballot boxes and ballot papers; and

(b) of the voting compartments, any other furniture necessary for polling stations and instruments to stamp the official mark on the ballot papers.

**Expenses of provision of stationery etc**

**18**. Expenses of a constituency returning officer or a regional returning officer at an Assembly election in the provision of stationery and writing implements and in postage, telephone and bank charges and other miscellaneous items.

**Treuliau darparu fersiwn mawr o bapur pleidleisio etc**

19. Treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad wrth ddarparu fersiynau mawr o bapur pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio er mwyn cynorthwyo pleidleiswyr sy'n gweld yn rhannol a dyfeisiadau sy'n galluogi pleidleiswyr sy'n ddall neu sy'n gweld yn rhannol i bleidleisio heb fod angen cymorth oddi wrth y swyddog llywyddu neu oddi wrth unrhyw gydymaith.

**Expenses of provision of large version of ballot paper etc**

**19**. Expenses of a constituency returning officer at an Assembly election in providing large versions of the ballot paper in polling stations for the assistance of voters who are partially-sighted and devices for enabling voters who are blind or partially-sighted to vote without any need for assistance from the presiding officer or any companion.

**Treuliau mewn perthynas â mesurau diogelwch**

**20**. Treuliau swyddog canlyniadau etholaeth mewn etholiad Cynulliad mewn cysylltiad â darparu mesurau diogelwch.

**Expenses in connection with provision of security measures**

**20**. Expenses of a constituency returning officer at an Assembly election in connection with the provision of security measures.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2006 Rhif 3268 (Cy.298)

## CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2006

## 2006 No. 3268 (W.298)

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The National Assembly for Wales (Returning Officers' Charges) Order 2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W436/12/06 ON